# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 19 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Ffyniant Economi

**C11 Cynog Dafis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar beth sydd yn cael ei wneud er mwyn sicrhau ffyniant economi Abergwaun a gogledd Penfro? (OAQ20298) [W]

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu hinsawdd a fydd yn galluogi busnesau i ffynnu ledled Cymru. Bydd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn ymweld ag Abergwaun yr wythnos hon i gadeirio cyfarfod o bartneriaid Tîm Cymru, ac i adolygu'r gwaith o fynd i'r afael â'r swyddi a gollwyd yn Dewhirst. Mae Tîm Cymru yn parhau i ymdrechu'n galed i ddenu buddsoddiadau newydd i Sir Benfro. Wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y byddai cefnogaeth ar gael ar gyfer cynnig Bluestone Leisure. Byddai'r datblygiad hwn yn creu 600 o swyddi, a chynigiwyd cymorth o £16.5 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyllid Cymru a Bwrdd Croeso Cymru.

### Gwledigrwydd

**C12 Nick Bourne:** Sut y mae Llywodraeth y Prif Weinidog yn addasu'i pholisïau i sicrhau ei bod yn ystyried gwledigrwydd? (OAQ20307)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig arweiniad strategol a phendant wrth gydlynu a rhoi ffocws ar bolisïau datblygu gwledig, sydd yn seiliedig ar greu gweledigaeth a gosod blaenoriaethau ar gyfer Cymru wledig. Cydweithiwn yn agos â chyrff eraill megis Partneriaeth Cefn Gwlad Cymru ac fe barhawn i wneud hyn i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion Cymru wledig.

### Gwaith Prosesu Cig Dawn Pac

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwaith prosesu cig Dawn Pac yn Cross Hands? (OAQ20292)

**Y Prif Weinidog:** Gŵyr yr Aelod fod Cyngor Sir Caerfyrddin, ar 30 Hydref 2002, wedi rhoi caniatâd cynllunio i'r cwmni sefydlu ffatri newydd yn Cross Hands. Mae hwn yn newyddion campus.

Gan fod y cwmni yn gyflogwr o bwys yn yr ardal leol, mae hyn yn gam mawr ymlaen, ac yr wyf yn falch bod y Cynulliad Cenedlaethol ac Awdurdod Datblygu Cymru yn cydweithio'n agos, mewn parterneriaeth â'r cwmni, i drafod cymorth posibl.

### Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru

**C14 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y costau sydd ynghlwm wrth ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? (OAQ20317) [W]

**Y Prif Weinidog:** Mae unrhyw system sy'n cael ei newid o fod yn anhygyrch ac yn fiwrocrataidd i fod yn lleol, hygyrch ac yn atebol werth un buddsoddiad o rhwng £12.5 miliwn a £15.5 miliwn mewn costau trawsnewid. Unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gwneud, ni fydd y strwythurau newydd yn costio mwy i'w rhedeg na'r rhai presennol.

**Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

**C15 David Melding:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ailstrwythuro'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? (OAQ20296)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhaglen i newid strwythur y GIG yn mynd rhagddi yn unol â'r cynllun cyffredinol a gymeradwywyd ym mis Mawrth gan y bwrdd llywio. O 1 Ebrill 2003, diddymir y pum awdurdod iechyd ac fe sefydlir 22 bwrdd iechyd lleol statudol. Crëir gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol; caiff Comisiwn Iechyd Cymru (Gwasanaethau Arbenigol) ei gryfhau; ac fe fydd tair swyddfa ranbarthol newydd gan GIG Cymru i gynnal y strwythurau newydd ac i sicrhau gwasanaeth i'r boblogaeth.

Bydd atebolrwydd cliriach a dulliau cryfach o wneud penderfyniadau strategol gan y GIG ar ei newydd wedd. Fe fydd y gwasanaeth, o ran cynllunio, cynlluniau gwasanaeth, darpariaeth, cyfranogiad ac atebolrwydd lleol, yn agosach at gymunedau a chleifion.